

CRYNODEB GWEITHREDOL: YSGOLION YR 21AIN GANRIF – YSGOL GYNRADD MAENDY – TREFNIADAU YMGYNGHORIAD.

1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r crynodeb gweithredol yma'n esbonio'r rhesymau a'r trefniadau ar gyfer ymgynghoriad ynglŷn â'r cynnig i ailadeiladu ac ehangu Ysgol Gynradd Maendy i 420 o leoedd (a 30 o leoedd meithrin), ac yn esbonio cam nesaf y broses.

2 Pwrpas yr Adroddiad

- 2.1 Rhoi manylion trefniadau'r ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynnig hwn.

3 Negeseuon Allweddol

- 3.1 Croesawyd cynlluniau Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn fawr gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen wedi bod yn un amlwg, gyda'r cyngor yn penderfynu cynnwys pob ysgol fel rhan ohoni yn Hydref 2010. Gofynnodd y cyngor am farn pawb sydd â diddordeb yn y rhaglen yn ystod cyfres o arddangosfeydd a gynhaliwyd ar draws y fwrdeistref sirol ym Mawrth 2011. Rhoddwyd adroddiad ar ganlyniadau'r ymgysylltiad cyhoeddus yma i'r cabinet yng Ngorffennaf 2011.
- 3.2 Mae'r crynodeb gweithredol yn ymwneud â chynnig sy'n effeithio ar Ysgol Gynradd Maendy fel nodir ym Mand B y rhaglen ac fel cadarnhawyd ar ôl adolygiad yn 2017.
- 3.3 Mae angen adeiladau newydd ac mae angen cynyddu capasiti'r ysgol er mwyn bodloni galw newydd yn yr ardal sy'n dod o ddatblygiad tai De Sebastopol.
- 3.4 Mae angen ymgynghoriad statudol oherwydd ein bod yn cynnig cynyddu capasiti'r ysgol o 231 i 420 o leoedd, a bydd barn yr ymgynghoriad hwnnw'n penderfynu, yn y pen draw, a fydd y cynllun adeiladu'n mynd yn ei flaen ai peidio.
- 3.5 Bwriedir gweithredu'r newid hwn ar 1^{af} Medi 2023.

4 Cefndir

- 4.1 Cyflwynwyd yr Achos Busnes Amlinellol (ABA) mewn perthynas â'r cynnig hwn i Lywodraeth Cymru yn ystod Tymor yr Hydref 2019. Cafodd y cyngor gymeradwyaeth i symud ymlaen at y cam nesaf. Mae'r Cabinet nawr wedi cymeradwyo cyflwyno'r Achos Busnes Terfynol i Lywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddiad o £11,460,000 mewn ysgol newydd i Ysgol Gynradd Maendy ar y safle presennol.

Y pedwar Amcan Buddsoddiad y byddwn yn eu cyflenwi o ganlyniad i'r cynllun hwn yw:

- Gwella effeithlonrwydd a deilliannau'r gwasanaeth i bob dysgwr.
- Dod ag arbedion ac effeithlonrwydd i ddarpariaeth y gwasanaeth.
- Rhoi cyfleoedd newydd a gwell i bob dysgwr.
- Gwella profiad y dysgwr ac apêl i bob dysgwr.

4.2 Mae angen ymgynghoriad ffurfiol oherwydd bod y cynnig yn golygu ehangu'r ysgol i gynyddu capasiti'r ysgol o leiaf 25% neu 200 o ddisgyblion ar ben capasiti presennol yr ysgol. Yn yr achos hwn, o 231 i 420 o leoedd.

4.3 Bwriedir y bydd yr adeilad newydd ym Maendy ar gael i'w ddefnyddio ym Medi 2023.

5 Materion a chanfyddiadau

5.1 Mae'r rheoliadau yn gofyn bod ymgynghorai'n cael o leiaf 42 diwrnod i ymateb i'r ddogfen ymgynghorol, gydag o leiaf 20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol. O ystyried hyn, bydd y cyfnod ymgynghorol yn dechrau ddydd Llun 24^{ain} Chwefror 2020 ac yn cau ddydd Llun 6^{ed} Ebrill 2020.

5.2 Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau gyda chyhoeddi dogfen ymgynghorol a'i dosbarthu i ymgynghorai penodol yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, gan wahodd barn ar y cynnig. Bydd ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc hefyd.

5.3 Bydd y ddogfen ymgynghorol yn cynnwys gwybodaeth gyd-destunol ynglŷn â'r cynnig, yn amlinellu'r newidiadau sy'n cael eu hystyried, y rheswm dros y rhain, manylion y broses ymgynghorol ac yn cynnwys ffurflen i ymateb. Bydd ymgynghorai'n cael gwybod manylion cyswllt er mwyn danfon sylwadau trwy e-bost.

5.4 Bydd y broses ymgynghorol yn cael ei hyrwyddo ar-lein hefyd, trwy wefan Cyngor Torfaen a'i sianelau cyfryngau cymdeithasol.

Gellir rhoi barn neu sylwadau:

- Trwy ysgrifennu ar Mr Dermot McChrystal, Prif Swyddog Addysg a Chyfarwyddwr Arweiniol Plant a Phobl Ifanc (At Sylw Mark Horton) d/o Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, Torfaen NP4 6YB.
- Trwy e-bost: 21stcenturylearning@torfaen.gov.uk.
- Trwy gwblhau ffurflen ateb (atodwyd i'r ddogfen ymgynghorol) a'i dychwelyd at

y cyfeiriad uchod.

5.5 Bydd y digwyddiad ymgynghorol fel a ganlyn:

DYDD/DYDDIAD	AMSER	LLEOLIAD	CYNULLEIDFA FWRIEDIR	A
Dydd 10 ^{fed} 2020	Mawrth Mawrth 6.00pm	tan Ysgol Gynradd Maendy, Wayfield Crescent, Cwmbrân, NP44 1NH.	Staff dysgu, nid yn dysgu a chefnogol, Llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr Ysgol Gynradd Maendy a phob un arall â diddordeb.	

6 Materion Allweddol.

- 6.1 Mae angen ymgynghoriad statudol, oherwydd bod y cyngor yn cynnig cynnydd yng nghapasiti ffisegol yr ysgol
- 6.2 Yn benodol, bydd y capasiti a'r Nifer Derbyn cysylltiol yn cynyddu o 1^{af} Medi 2023, pan fydd adeilad newydd Maendy yn barod i'w ddefnyddio.

7 Beth sy'n digwydd nesaf?

- 7.1 Mae'r amserlen fynegol ganlynol yn dangos beth sy'n digwydd nesaf ac yn gosod allan y broses statudol:
- Ymgynghoriad cychwynnol ar y broses (6 wythnos) – 24^{ain} Chwefror 2020 tan 6^{ed} Ebrill 2020
 - Cabinet yn derbyn adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad ac yn ystyried y camau nesaf – Ebrill 2020.
 - Os oes cytundeb, cyhoeddir hysbysiadau statudol (cyfnod o 28 diwrnod i wrthwynebu) – Ebrill/Mai 2020
 - Ystyried gwrthwynebiadau ac ystyried camau nesaf – Mai/Mehefin 2020
 - Gweithredu'r cynnig – dechrau blwyddyn academaidd 2023/24.

8 Diwedd glo / Crynodeb

- 8.1 Bydd gweithredu'r cynllun hwn yn rhan hanfodol o Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif Torfaen, o ran:
- rheoli gormodedd o leoedd yn effeithiol
 - caniatáu i'r Awdurdod Lleol ad-drefnu ei stoc o adeiladau fel bydd ganddo llai o ysgolion i gynnal ac ariannu
 - bod yn gallu darparu safon uchel ac amrywiaeth o addysg i holl ddisgyblion y gymuned.

9 **Gwybodaeth bellach**

Mae copi llawn o'r ddogfen ymgynghorol y cyfeirir ato yn y crynodeb gweithredol hwn ar gael trwy ffonio 01495 766910 neu drwy ymweld â gwefan y Cyngor: www.torfaen.gov.uk.

Os oes angen gwybodaeth bellach ynglŷn â'r cynnig hwn, cysylltwch â Mark Horton Ffôn: 01495 766910 neu e-bost: mark.horton@torfaen.gov.uk

